

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Lun y 1af o Orffennaf 2024 am 8.00yh yng Nghanolfan Gymunedol Trelech.

Cynghorwyr yn bresennol: Andrew Jones (Cadeirydd), Linda Davies, Alyson Harries, John Phillips, Ambrose Lewis, Eirian Howells, Dyfed Davies, Derrick Harries, Arwyn Jones & Cynghorydd Sir Jean Lewis

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau wrth Ann Sillars
2. **Sylwadau'r Cadeirydd:**
Diolchodd Andrew Jones i bawb am fynychu yn wythnos yr Etholiad Gyffredinol.
3. **Datgan Buddiannau:**
Ni nodwyd unrhyw datgan budd.
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**
Roedd cofnodion y cyfarfod o'r 13eg o Fai 2024 wedi eu dosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac fe'u llofnodwyd.
5. **Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:**
 - Roedd y ffens ger man pasio Bronllan wedi cael ei godi i fyny.
 - Roedd y clerc wedi cyfarfod gyda swyddog o'r Cyngor Siri drafod yr heol i Rhoscrugebolion hiebio Lleine. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd i'r Cadeirydd ac y Clerc drefnu cyfarfod gyda pherchnogion Lleine.

6. Gohebiaeth

- a. Roedd ad-daliad TAW wedi ei gyflwyno am £1437.09.
- b. Gan fod Archwiliad eleni yn un llawn ac fod angen y datganiadau banc hyd at 30/6/24(sef ddoe), nid oedd y clerc wedi cyflwyno'r wybodaeth hyd yn hyn i Archwilwyr Cymru ond byddai'n gwneud hynny yr wythnos yma.
- c. Roedd ebyst parthed heolydd ar gau wedi cael eu danfon ymlaen i'r Cynghorwyr.

7.Cyllid

Cyfrif Busnes Cyfredol £1,655.74

8. Unrhyw Fater Arall

- Codwyd pryder fod y ffens o flaen Fferm Madox yn goleddu mewn i'r heol. Byddai'r Cynghorydd Sir Jean Lewis yn edrych ar y mater.
- Dymuna'r ynghorwyr nodi y gwaith gwych sydd wedi cael ei wneud gan contractiwr y Cyngor Sir a oedd yn torri'r cloddiau.
- Codwyd pryder am ddifyg marciau cyffordd mewn nifer o ardaloedd a oedd yn golygu fod damwiniau bron a digwydd. Y cyffyrdd oedd: Rhosychen, Velindre, Gelliwen, Pantshoni/Perthimwyn.
- Rhestrwyd nifer o heolydd a oedd a tyllau difrifol i'r Cynghorydd Sir. Y rhestr oedd: Pantshoni i Maniwan, Y Ficerdy i Glasgant, o Trelech i Dinas Fach ac y rhiw lawr i Dinas

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd pawb a chaëwyd y cyfarfod am 9.00yh.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 2ail o Fedi 2024.